Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12880

81

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad byr ynghylch ateb a roddwyd yn ystod y sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog yr wythnos gynt, yn dilyn gohebiaeth a gafodd wedi hynny gan Network Rail a gadarnhaodd nad oedd unrhyw staff Network Rail wedi cael eu hail-leoli yn ystod y streic yr wythnos gynt. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai'r llythyr ar gael i'r Aelodau yn y Llyfrgell.

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.33

3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal

Dechreuodd yr eitem am 14.47

4 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Diogelwch Adeiladau

Dechreuodd yr eitem am 15.28

5 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Gwerthuso a Gwella Addysg a Dysg yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 15.54

6 Datganiad gan Weinidog yr Economi: Mesurau Rheoli Ffiniau

Dechreuodd yr eitem am 16.30

7 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Haf o Hwyl 2022

Dechreuodd yr eitem am 17.06

8 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-2026

Dechreuodd yr eitem am 17.35

9 Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022

Dechreuodd yr eitem am 18.13

NDM8035 Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Deddfwriaeth Sylfaenol) 2022, yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2022.

Dogfennau Ategol

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

10 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 18.15

Yn unol a Rheol Sefydlog 26.50C, gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.

NDM8045 Jeremy Miles (Castell Nedd)

Cynnig bod y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru).

Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), fel y'i diwygiad ar ôl Cyfnod 3

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

O blaid	Ymatal	Yn erbyn	Cyfanswm
50	0	0	50

Derbyniwyd y cynnig.

11 Cyfnod pleidleisio

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.18, am 18.28 cafodd y trafodion eu hatal dros dro i ganiatáu egwyl technegol cyn y Cyfnod Pleidleisio.

Dechreuodd yr eitem am 18.32

Daeth y cyfarfod i ben am 18.33

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 29 Mehefin 2022